Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Mawrth 2022

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddBusnes**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Busnes**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddBusnes@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Mawrth 2022

# Am y Pwyllgor

Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am drefnu Busnes y Senedd. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddBusnes**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Elin Jones AS**
Plaid Cymru



**Lesley Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Darren Millar AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**1. Crynodeb o'n casgliadau ....... 6**

**2. Cefndir ....... 7**

**3. Ymatebion i'r dull presennol o amserlennu ....... 9**

Ymatebion y pwyllgorau ....... 9

Ymatebion Aelodau ....... 10

**4. Hyblygrwydd rhagweladwy ....... 11**

**5. Canfod ateb ....... 12**

**6. Pwyllgorau sy'n cyfarfod yn llai aml ....... 16**

**7. Dulliau cyfarfod ....... 17**

**8. Rhoi ar waith ....... 18**

**Atodiad A: Amserlen y pwyllgorau o 25 Ebrill 2022 ....... 19**

Cynhaliodd y Pwyllgor Busnes adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau er mwyn gwirio a oedd lle i wella trefniadau a wnaed ar ddechrau'r Chweched Senedd.

Canfu'r Pwyllgor Busnes fod lle i welliannau gael eu gwneud i amserlen y pwyllgorau, ac ar yr un pryd i gydbwysedd priodol gael ei gynnal rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach.

Er i rai pwyllgorau roi adborth ar eu cylchoedd gwaith, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad nad oedd achos dros newid cylchoedd gwaith y pwyllgorau ar hyn o bryd.

# 1. Crynodeb o'n casgliadau

**1.** Wedi ystyried yr ymatebion i'r adolygiad, a thrafod canlyniadau posibl â Fforwm y Cadeiryddion, daethom i'r casgliad **y dylid gwneud gwelliannau i amserlen y pwyllgorau**, ac ar yr un pryd gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach.

**2.** Rydym wedi cytuno i ddiwygio amserlen y pwyllgorau **mewn pedair ffordd**, i fynd i'r afael â materion a godwyd yn yr ymatebion i'r adolygiad:

1. **cadw amserlen bythefnos** ar gyfer y rhan fwyaf o bwyllgorau;
2. **darparu slotiau cyfarfod wrth gefn i bwyllgorau yn yr wythnosau nad ydynt yn eistedd,** i'w defnyddio heb orfod gofyn am ganiatâd gan y Pwyllgor Busnes (ond gyda chytundeb y pwyllgor);
3. **cyflwyno patrwm cyfarfod bore Mercher/prynhawn Iau bob yn ail** er mwyn darparu'r un faint o amser cyfarfod a hyblygrwydd i bob pwyllgor polisi a deddfwriaeth, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a'r Pwyllgor Cyllid; a
4. **dileu wythnosau gwarchodedig**, ond gan barhau i ddarparu amser gwarchodedig ar gyfer pwyllgorau sy'n cyfarfod yn achlysurol.

**3.** Er y darparwyd rhywfaint o adborth ar gylchoedd gwaith pwyllgorau, nid yw'n ymddangos bod achos dros newid cylchoedd gwaith unrhyw bwyllgorau ar hyn o bryd

# 2. Cefndir

**4.** Yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2021, gwnaethom gytuno i adolygu amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau, yn amodol ar safbwyntiau Fforwm y Cadeiryddion. Cyfarfu Fforwm y Cadeiryddion ar 16 Rhagfyr 2021, a chymeradwyodd ddull y Pwyllgor Busnes o gynnal yr adolygiad.

**5.** Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

> *"Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach."*

**6.** Ysgrifennodd y Llywydd at y pwyllgorau i ofyn am eu barn, gydag ymatebion wedi'u cyflwyno erbyn 4 Chwefror 2022.

**7.** Lansiwyd arolwg ar gyfer aelodau pwyllgorau ar 25 Ionawr 2022 a daeth i ben ar 4 Chwefror 2022.

**8.** Rhoddodd 12 pwyllgor ymatebion ysgrifenedig i wahoddiad y Llywydd i gyfrannu at yr adolygiad. Ymatebodd 17 o aelodau unigol pwyllgorau i'r arolwg ar gyfer aelodau.

**9.** Cyhoeddwyd ymatebion y pwyllgorau ar wefan y Senedd.

**10.** Gwnaethom ystyried yr ymatebion i'r adolygiad ar 15 Chwefror 2022 a chytunwyd i ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion ar gynigion drafft ar gyfer diwygio amserlen y pwyllgorau.

**11.** Trafododd Fforwm y Cadeiryddion ein cynigion drafft yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2022. Cefnogodd Fforwm y Cadeiryddion ein diwygiadau arfaethedig i'r amserlen a rhoddodd adborth hefyd ar amserlen rhai pwyllgorau unigol. Ystyriodd grwpiau gwleidyddol y cynigion drafft ar 1 Mawrth 2022.

**12.** Yn sgil adborth gan Gadeiryddion a grwpiau gwleidyddol, gwnaethom rai newidiadau i'n cynnig gwreiddiol a chytunwyd ar amserlen pwyllgorau ddiwygiedig yn ein cyfarfod ar 8 Mawrth 2022, gyda'r newidiadau i'w rhoi ar waith yn Nhymor yr Haf.

**13.** Credwn ei bod yn bwysig nodi i'r adolygiad gael ei gynnal yng nghyd-destun pandemig COVID-19, ac mae gweithgarwch y pwyllgorau yn ystod cyfnod ffocws yr adolygiad wedi cael ei

effeithio’n sylweddol gan y cyfyngiadau iechyd cyhoeddus sydd wedi bod ar waith i reoli lledaeniad y feirws.

# 3. Ymatebion i'r dull presennol o amserlennu

## Ymatebion y pwyllgorau

**14.** Roedd amrywiaeth barn ymysg y pwyllgorau, o'r rhai a nododd fod y sefyllfa fel y mae yn gweithio'n dda, i eraill a nododd broblemau sylweddol o'u safbwynt hwy. Er mwyn pwysleisio'r gwahaniaeth barn, ni allai un pwyllgor ddod i farn ar amlder cyfarfodydd.

**15.** Cyflwynwyd ymatebion gan nifer o bwyllgorau sy'n cyfarfod bob pythefnos ar hyn o bryd, gan gynnwys Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn awgrymu parhau â'r patrwm o gyfarfodydd bob pythefnos, am y tro o leiaf.

**16.** Awgrymodd y pwyllgorau hyn hefyd nifer o welliannau y gellid eu gwneud i'r amserlen bresennol, gan gynnwys rhoi cyfarfodydd ychwanegol rheolaidd ar yr amserlen, lleihau'r angen i'r Pwyllgor Busnes gymeradwyo cyfarfodydd ychwanegol, ailystyried y defnydd o slotiau cyfarfodydd dydd Iau, ailystyried cynnwys wythnosau gwarchodedig yn yr amserlen, ac osgoi cydleoli pwyllgorau penodol yn yr un slot cyfarfod.

**17.** Wrth ymateb i'r adolygiad, awgrymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei bod yn rhy fuan i gynnal adolygiad, yn enwedig gan fod cyfyngiadau iechyd y cyhoedd yn dal i fod ar waith, gan effeithio ar sut y gellir cynnal busnes y pwyllgorau.

**18.** Nododd dau o'r pwyllgorau, sef y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Cyllid, sy'n cyfarfod bob pythefnos ar hyn o bryd, broblemau gyda'r dull presennol, gan gynnig cyflwyno amserlen wythnosol a dileu'r wythnos warchodedig.[1]

**19.** Awgrymodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddychwelyd i drefniant y Bumed Senedd cyn y pandemig, sef amserlen wythnosol ar gyfer y rhan fwyaf o bwyllgorau, gyda chyfarfodydd bob yn ail rhwng bore Mercher a drwy'r dydd ar ddydd Iau.

**20.** Cododd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai bryderon am yr amser sydd wedi bod ar gael iddo, o dan y trefniadau presennol, i wneud ei waith. Mae'r Pwyllgor hwn yn nodi y gall ei

[1] Cafodd wythnos olaf pob hanner tymor ei hamserlennu'n "wythnos warchodedig". Cyflwynwyd yr wythnosau hyn i gynnig hyblygrwydd ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol, i ddarparu amser cyfarfod penodedig ar gyfer pwyllgorau sy'n cyfarfod yn anaml, ac i ddarparu lle i bwyllgorau gyfarfod ar y cyd.

gyfyngiadau presennol i slot cyfarfod ar ddydd Mercher achosi problemau o ganlyniad i'r terfyn ar yr amser sydd ar gael oherwydd y Cyfarfod Llawn, ac nid yw'n credu bod yr amserlen bresennol yn cynnig digon o amser iddo weithio mor effeithiol ag y byddai'n dymuno. Awgrymodd gylchdroi slotiau cyfarfod rhwng dydd Mercher a dydd Iau. Hefyd, Awgrymodd ddileu'r wythnos warchodedig.

**21.** Roedd barn y Pwyllgor Diwylliant, Cymunedau, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn rhanedig o ran patrwm pythefnosol o gyfarfodydd. Fel y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, mae gan y Pwyllgor hwn slot bore Mercher o dan yr amserlen bresennol. Mae'n gofyn am i slot diwrnod llawn gael ei hystyried ar gyfer ei waith, ar ddydd Llun neu ar ddydd Iau.

**22.** Pwysleisiwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac yn rhai o'r ymatebion naratif gan aelodau, ei bod yn bwysig ystyried arferion gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd fel rhan o'r adolygiad.

**23.** Mae rhai pwyllgorau sy'n cyfarfod yn wythnosol (neu sydd â'r opsiwn i gyfarfod yn wythnosol) o dan yr amserlen bresennol. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn fodlon ar y cyfan â'r trefniadau presennol, gan nodi ei lwyth gwaith trwm, a'r angen posibl am gyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd. Canolbwyntiodd ymateb y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y defnydd o foreau Llun ar gyfer ei waith.

## Ymatebion Aelodau

**24.** Awgrymodd ymatebion i arolwg yr aelodau gydbwysedd o ran barn: o'r 17 aelod a atebodd yr arolwg, mwyafrif bychan, naw i wyth, a oedd o blaid cyfarfodydd bob pythefnos. Roedd ymatebion yr aelodau'n pwysleisio'r angen i amserlen y pwyllgorau gydnabod bod yn rhaid iddynt gydbwyso eu hamrywiol gyfrifoldebau, megis gwaith pwyllgor, y Cyfarfod Llawn a gwaith etholaethol.

**25.** Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion yn nodi amrywiaeth o faterion i ni eu hystyried o ran y trefniadau amserlennu presennol.

**26.** Mae'r ymatebion yn cyfeirio at yr angen i wella'r sefyllfa bresennol, i ystyried y materion a nodir gan rai pwyllgorau ac aelodau o bwyllgorau, gan sicrhau hefyd fod unrhyw welliannau'n ystyriol o'r effaith y gallent ei chael ar gapasiti aelodau.

# 4. Hyblygrwydd rhagweladwy

**27.** Mae'r ymatebion a gafwyd yn cefnogi barn a nodwyd gennym yn flaenorol, sef y dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y dull o amserlennu. Mae'n amlwg hefyd, o'r ymatebion, y dylai'r hyblygrwydd fod yn fwy rhagweladwy na'r hyn a ddarperir gan y trefniadau presennol h.y. gyda slotiau cyfarfod ychwanegol yn dilyn patrwm ar gyfer pwyllgorau yn hytrach na chael eu dyrannu ar sail fwy ad hoc.

**28.** O'r 17 ymateb a gafwyd gan aelodau pwyllgorau, nododd 15 ei bod yn well ganddynt batrwm penodol o gyfarfodydd.

**29.** Nododd nifer o bwyllgorau fod dyrannu slot cyfarfod ar ddydd Iau yn cynnig mwy o hyblygrwydd o'i gymharu â dim ond dyrannu slot cyfarfod ar fore Mercher.

**30.** Cydnabuwyd yn yr ymatebion ein parodrwydd i ganiatáu cyfarfodydd ychwanegol, ond roedd rhai pwyllgorau o'r farn bod y broses o orfod gofyn am ganiatâd yn peri anhawster wrth gynllunio gwaith.

# 5. Canfod ateb

**31.** Wrth ystyried gwahanol senarios, gallai symud pwyllgorau i amserlen wythnosol fynd i'r afael â phryderon llawer o bwyllgorau, a'r hyn oedd orau gan wyth o'r 17 aelod a ymatebodd i'r arolwg.

**32.** Fodd bynnag, gallai hyn ddyblu nifer y lleoedd pwyllgor sydd i'w llenwi bob wythnos (gweler Tabl 1), gan wireddu pryderon a fynegwyd gan rai pwyllgorau, a mynd yn groes i ddewis naw o'r 17 aelod a ymatebodd i'r arolwg i gynnal cyfarfodydd bob pythefnos.

*Tabl 1: Nifer y lleoedd pwyllgor i'w llenwi bob wythnos fesul grŵp plaid*

| | Llafur | Ceidwadwyr | Plaid Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|
| **Amserlen wythnosol** | 32 | 17 | 14 | 1 |
| **Yr amserlen gyfredol** | 16 | 9 | 7 | 1 |

**33.** Roedd hyn yn awgrymu na fyddai symud syml tuag at amserlen wythnosol yn sicrhau'r cydbwysedd a ddisgrifir yn y cylch gorchwyl.

**34.** Mae profiad o weithredu amserlen bresennol y pwyllgorau wedi dangos bod angen llawer o gyfarfodydd ychwanegol ar bwyllgorau i ymateb i'r busnes y maent wedi'i wynebu h.y. ni fyddai amserlen o gyfarfodydd pythefnosol ar ei phen ei hun wedi rhoi digon o amser i rai pwyllgorau ymgymryd â'u gwaith.

**35.** Gwnaethom gytuno ar gyfanswm o 22 o gyfarfodydd ychwanegol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2021 a 28 Ionawr 2022, a dyrannwyd wyth ohonynt i'r Pwyllgor Cyllid.

**36.** Awgrymodd hyn ei bod yn debygol y bydd angen slotiau ychwanegol ar bwyllgorau yn y dyfodol, yn weddol reolaidd.

**37.** I grynhoi:

- Er i broblemau gael eu nodi gyda'r amserlen bythefnos bresennol, byddai symud i amserlen wythnosol yn cynyddu'n sylweddol faint o amser y mae'n ofynnol i aelodau eistedd mewn cyfarfodydd pwyllgorau.

- Os cedwir at amserlen bythefnosol, bydd pwyllgorau'n parhau i fod angen slotiau cyfarfod ychwanegol.
- Byddai'n well gan rai pwyllgorau ac aelodau pwyllgorau pe bai cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu hamserlennu mewn ffordd ragweladwy a phe bai modd defnyddio'r rhain heb gymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes.
- Hoffai rhai pwyllgorau, nad oes ganddynt fynediad i slot cyfarfod diwrnod llawn ar hyn o bryd, allu manteisio ar yr opsiwn hwn h.y. gellid darparu dyraniad amserlen cymharol gyfartal ar gyfer y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.
- Dylid dileu wythnosau gwarchodedig os cedwir amserlen pythefnosol.

**38.** Er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd, gwnaethom gytuno ar bedwar newid i amserlen y pwyllgorau:

1. cadw amserlen bythefnos ar gyfer y rhan fwyaf o bwyllgorau;
2. darparu slotiau cyfarfod wrth gefn i bwyllgorau yn yr wythnosau nad ydynt yn eistedd, i'w defnyddio heb orfod gofyn am ganiatâd gan y Pwyllgor Busnes (ond gyda chytundeb y pwyllgor);
3. cyflwyno patrwm cyfarfod bore Mercher/prynhawn Iau bob yn ail er mwyn darparu'r un faint o amser cyfarfod a hyblygrwydd i bob pwyllgor polisi a deddfwriaeth; a
4. dileu wythnosau gwarchodedig, ond gan barhau i ddarparu amser gwarchodedig ar gyfer pwyllgorau sy'n cyfarfod yn achlysurol.

**39.** Credwn fod y dull hwn yn cynnig mwy o sicrwydd i bwyllgorau wrth gynllunio cyfarfodydd ychwanegol a'i fod yn dileu'r angen inni ystyried cais am gyfarfod ychwanegol, oni bai eu bod y tu allan i batrwm rheolaidd cyfarfodydd.

**40.** Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn golygu bod risg y byddai rhai pwyllgorau'n symud i amserlen wythnosol, gan achosi problemau i nifer o aelodau pwyllgorau, pe bai hyn yn digwydd.

**41.** Awgrymodd yr ymatebion i'r adolygiad y gall penderfyniadau i gynnal cyfarfodydd ychwanegol gael effaith y tu hwnt i'r gwaith a fyddai'n codi o ganlyniad i gynnal cyfarfodydd

ychwanegol y pwyllgor, gan y gallai effeithio ar allu aelodau i baratoi ar gyfer pwyllgorau eraill y maent yn eistedd arnynt.

**42.** Gellir lliniaru'r risg hon, i raddau, os gelwir cyfarfodydd ychwanegol gyda chytundeb pwyllgor h.y. os bydd Cadeirydd yn gofyn am gytundeb y pwyllgor cyn trefnu cyfarfodydd ychwanegol.

**43.** Fel mesur diogelu pellach, gwnaethom awgrymu y byddai Fforwm y Cadeiryddion efallai am ystyried monitro sut mae'r dull hwn yn datblygu, ac ystyried, o bryd i'w gilydd, effaith gronnol busnes y pwyllgorau ar gapasiti aelodau'r pwyllgorau. Yna, gallai Fforwm y Cadeiryddion godi hyn gyda ni, pe bai o'r farn bod angen newidiadau pellach i amserlen y pwyllgorau yn y dyfodol.

**44.** Mae'r amserlen bresennol yn rhoi dwbl yr amser bob pythefnos i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ag y mae'n rhoi i'r pwyllgorau polisi a deddfwriaeth eraill, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Y rheswm yw bod cyfarfod diwrnod llawn wedi'i ddyrannu iddynt ar ddydd Iau bob pythefnos ar hyn o bryd. O'i gymharu, dyrennir hanner diwrnod ar ddydd Mercher neu ddydd Llun i'r pwyllgorau eraill yn y grŵp hwn.

**45.** Os yw'r pwyllgorau hyn i gael yr un faint o amser, yna bydd cynnydd yn yr amser a ddarperir ar gyfer y pwyllgorau y dyrennir slot hanner diwrnod iddynt ar hyn o bryd. Bydd gostyngiad yn yr amser cyfarfod a ddarperir ar gyfer y pwyllgorau sy'n cyfarfod am ddiwrnod llawn ar ddydd Iau ar hyn o bryd.

**46.** Bydd y cynnydd mewn hyblygrwydd i gynnal cyfarfodydd ychwanegol mewn wythnosau nad ydynt yn wythnosau eistedd yn galluogi'r newid hwn i gael ei reoli mewn ffordd sy'n caniatáu i unrhyw amser a gollir yn yr amserlen gael ei adennill, os oes angen.

**47.** O ran pwyllgorau nad ydynt, efallai, yn dymuno cynyddu faint o amser y maent yn ei gael i gyfarfod, mae ganddynt yr hyblygrwydd i gadw'r amser y maent yn ei dreulio mewn cyfarfodydd ar y lefelau presennol, gyda'r opsiwn i ehangu hyn os bydd angen yn y dyfodol.

**48.** Er mwyn i'r rhan fwyaf o bwyllgorau allu manteisio ar gyfarfodydd bore Mercher a drwy ddydd Iau, ar gylchdro pythefnosol, mae angen amserlen bedair wythnos i reoli hyn.

**49.** Wrth ddatblygu amserlen ddiwygiedig, ceisiwyd osgoi gwrthdaro aelodaeth. Rydym wedi cyflawni hyn, ond rydym yn ymwybodol o un enghraifft o wrthdaro aelodaeth posibl a allai ddigwydd pe bai slotiau cyfarfod ychwanegol yn cael eu defnyddio.

**50.** Y tu hwnt i'r awydd i osgoi tarfu ar waith y pwyllgorau, roeddem hefyd yn cadw mewn cof adroddiad yr Athro Diana Stirbu *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd*, ac yn arbennig ei hargymhelliad ein bod yn ceisio "*Sicrhau sefydlogrwydd yn aelodaeth pwyllgorau er mwyn i bob Aelod gymryd rhan lawn yng ngwaith y pwyllgorau*".[2]

**51.** Cyn cwblhau amserlen ddiwygiedig, yn seiliedig ar y dull a ddisgrifir yn yr adran hon, fe wnaethom ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion ar 17 Chwefror 2022, ac â'r grwpiau gwleidyddol ar 1 Mawrth 2022.

**52.** Cymeradwyodd Fforwm y Cadeiryddion y dull a gynigiwyd gennym ar gyfer diwygio'r amserlen.

**53.** Awgrymodd Cadeiryddion rhai addasiadau i ddyraniadau cyfarfodydd, a gwnaethom roi sylw i'r rhain cyn cytuno ar amserlen ddiwygiedig ar 8 Mawrth 2022.

**54.** Darperir copi o'r amserlen ddiwygiedig yn Atodiad A: Amserlen y pwyllgorau o 25 Ebrill 2022.

[2] Yr Athro Diana Stirbu, *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd - Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau*, Prifysgol Fetropolitan Llundain, Hydref 2021, t.78

# 6. Pwyllgorau sy'n cyfarfod yn llai aml

**55.** O dan yr amserlen gyfredol, mae'r wythnosau gwarchodedig yn darparu amser penodedig ar gyfer:

- Pwyllgor y Llywydd;
- Fforwm y Cadeiryddion; a'r
- Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

**56.** Gan inni gytuno y dylid dileu wythnosau gwarchodedig, roedd yn rhaid dod o hyd i amser i'r pwyllgorau hyn a'r Fforwm hwn gyfarfod.

**57.** Mae'r amserlen ddiwygiedig yn galluogi Pwyllgor y Llywydd i gyfarfod ar unrhyw fore Llun.

**58.** I'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, darperir slot cyfarfod ar ddydd Gwener (fel yn achos y pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Bumed Senedd). Rydym yn fodlon i hyn ddigwydd yn wythnos olaf pob tymor, neu wythnos olaf ond un pob tymor, yn unol ag anghenion y Pwyllgor hwnnw.

**59.** I'r Fforwm Cadeiryddion, darperir slot cyfarfod 90 munud ar fore Iau olaf pob hanner tymor (o 09.00 tan 10:30). Mae hyn yn darparu amser penodol i Fforwm y Cadeiryddion, gan alluogi pwyllgorau i barhau i gyfarfod ar yr un diwrnod, er y byddent yn dechrau eu busnes yn hwyrach.

# 7. Dulliau cyfarfod

**60.** O ran y dull o gyfarfod (yn bersonol, hybrid neu rithwir), gall seilwaith presennol y Senedd gefnogi pedwar cyfarfod rhithwir neu gorfforol ar unrhyw adeg. Gellir cefnogi dau gyfarfod hybrid ar unrhyw adeg. Mae staff Comisiwn y Senedd yn gweithio ar opsiynau i gynyddu'r capasiti hwnnw i bedwar cyfarfod hybrid cydamserol. Hyd nes y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, bydd angen rhoi trefniadau ar waith i ddatrys unrhyw ofynion cystadleuol posibl am adnoddau hybrid.

**61.** Pan fo'r amserlen yn caniatáu cyfle ar gyfer mwy na dau gyfarfod pwyllgor ar unrhyw adeg, cynigir yr opsiwn i gynnal cyfarfod hybrid i'r pwyllgorau sydd â slot wedi'i amserlennu yn gyntaf, h.y. cyn y rhai sydd â slot wrth gefn ar yr un pryd.

**62.** Mewn amgylchiadau lle bydd gan dri phwyllgor gyfarfod wedi'i amserlennu ar yr un pryd, bydd y mater yn cael ei ddatrys rhwng y pwyllgorau hynny lle bo modd (fel y byddai wedi digwydd o'r blaen mewn perthynas â dewisiadau ar gyfer ystafelloedd cyfarfodydd pwyllgorau penodol). Lle nad oes modd datrys y broses o ddyrannu cyfleusterau hybrid, yna gellir cyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Busnes ar gyfer penderfyniad (fel mater o amserlennu).

# 8. Rhoi ar waith

**63.** Rhoddir yr amserlen ddiwygiedig ar waith o ddechrau Tymor yr Haf h.y. o'r wythnos sy'n dechrau ar 25 Ebrill 2022.

# Atodiad A: Amserlen y pwyllgorau o 25 Ebrill 2022

**Allwedd:**
**TESTUN COCH**: Slot cyfarfod wedi'i amserlennu
[PWYLLGOR]: Slot cyfarfod wrth gefn (y gellir ei ddefnyddio heb geisio caniatâd gan y Pwyllgor Busnes)

<table>
<tr><th>Wythnos</th><th>Llun</th><th>Mawrth</th><th>Mercher</th><th>Iau</th><th>Gwener</th></tr>
<tr><td rowspan="3">1</td><td rowspan="2"></td><td>PWYLLGOR BUSNES<br>[SAFONAU]</td><td rowspan="2">PLANT<br>CCGG<br>[DIWYLLIANT]<br>[IECHYD]</td><td rowspan="3">HINSAWDD<br>ECONOMI<br>[CYLLID]<br>[TAI]</td><td rowspan="3">DIM BUSNES Y SENEDD</td></tr>
<tr><td>GRWPIAU</td></tr>
<tr><td>COMISIWN Y SENEDD<br>DCC<br>DEISEBAU<br>[CYDRADDOLDEB]</td><td>CYFARFOD LLAWN</td><td>CYFARFOD LLAWN</td></tr>
<tr><td rowspan="3">2</td><td rowspan="2">SAFONAU</td><td>PWYLLGOR BUSNES</td><td rowspan="2">[PLANT]<br>[CCGG]<br>DIWYLLIANT<br>IECHYD</td><td rowspan="3">[HINSAWDD]<br>[ECONOMI]<br>CYLLID<br>TAI</td><td rowspan="3">DIM BUSNES Y SENEDD</td></tr>
<tr><td>GRWPIAU</td></tr>
<tr><td>COMISIWN Y SENEDD<br>DCC<br>CYDRADDOLDEB</td><td>CYFARFOD LLAWN</td><td>CYFARFOD LLAWN</td></tr>
<tr><td rowspan="3">3</td><td rowspan="2">[CYDRADDOLDEB]</td><td>PWYLLGOR BUSNES<br>[SAFONAU]</td><td rowspan="2">HINSAWDD<br>ECONOMI<br>[CYLLID]<br>[TAI]</td><td rowspan="3">PLANT<br>CCGG<br>[DIWYLLIANT]<br>[IECHYD]</td><td rowspan="3">DIM BUSNES Y SENEDD</td></tr>
<tr><td>GRWPIAU</td></tr>
<tr><td>COMISIWN Y SENEDD<br>DCC<br>DEISEBAU<br>[CYDRADDOLDEB]</td><td>CYFARFOD LLAWN</td><td>CYFARFOD LLAWN</td></tr>
</table>

| Wythnos | Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **CYDRADDOLDEB**<br>**SAFONAU** | PWYLLGOR BUSNES<br>GRWPIAU | [NEWID HINSAWDD]<br>[ECONOMI]<br>**CYLLID**<br>**TAI** | [PLANT]<br>[CCGG]<br>**DIWYLLIANT**<br>**IECHYD** | DIM BUSNES Y SENEDD |
| | COMISIWN Y SENEDD<br>**DCC**<br>**CYDRADDOLDEB** | **CYFARFOD LLAWN** | **CYFARFOD LLAWN** | | |